



Cynllun Cydraddoldeb Strategol

2016 - 2020

Os hoffech gael copi o'r ddogfen hon mewn fformat gwahanol neu yn eich iaith eich hun, cysylltwch â

Stephanie Aldridge
Swyddog Polisi Cynorthwyol – Cydraddoldeb a Pholisi Cymdeithasol
Gwasanaethau Corfforaethol
Neuadd y Sir
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 6NG

Ffôn: ☎ - 01352 702131

E-bost: ✉ stephanie.aldridge@flintshire.gov.uk



Cynnwys	Tudalen
Rhagair	4
1. Cyflwyniad	5
1.1 Cyd-destun Cyfreithiol	5
1.2 Proffil Cymunedol	6
1.3 Y Cyngor	7
2. Amcanion Cydraddoldeb	11
2.1 Diwallu ein Hamcanion Cydraddoldeb 2012/16	11
2.2 Adolygu ein Hamcanion Cydraddoldeb	12
2.3 Ein Hamcanion Cydraddoldeb 2016/2020	15
3. Diwallu'r Dyletswyddau Penodol	23
3.1 Trefniadau ar gyfer nodi, coladu a chyhoeddi gwybodaeth	23
3.2 Trefniadau ar gyfer asesu effaith	24
3.3 Trefniadau ar gyfer hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth	24
3.4 Sut byddwn yn ymgorffori cydraddoldeb mewn caffael	25
4 Monitro ac Adolygu	26
5. Cyhoeddi	26

Atodiadau:

1. Cynllun Gweithredu
2. Proffil cymuned
3. Proffil o Weithlu Cyngor Sir y Fflint

Rhagair

Croeso i ail Gynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Sir y Fflint. Rydym yn falch o gyhoeddi'r cynllun hwn sy'n rhoi manylion am yr amcanion, camau gweithredu a'r targedau a fydd yn cael eu gwneud yn ystod y pedair blynedd nesaf ac yn nodi'r sylfaen dystiolaeth a'r rhesymeg y mae'r amcanion yn seiliedig arnynt.

Rydym wedi parhau i weithio mewn partneriaeth gyda'r holl gyrff cyhoeddus ar draws Gogledd Cymru ac wedi nodi amcanion cydraddoldeb lefel uchel ranbarthol yn ogystal â lleol. Rydym yn falch bod aelodaeth wreiddiol Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru wedi tyfu ac yn cynnwys Coleg Cambria a Phrifysgol Glyndŵr. Mae gweithio mewn partneriaeth yn bwysig yn y cyfnod ariannol anodd hwn, ond mae hefyd yn helpu i nodi amcanion cydraddoldeb cyffredin. Mae'r rhain yn golygu bod gweithgarwch yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â meysydd penodol o anghydraddoldeb a fydd o fudd i bob rhan o gymuned Gogledd Cymru. Bydd nifer o sefydliadau sy'n gweithio gyda'i gilydd i greu newid yn cael mwy o effaith nag un sefydliad. Mae ein hamcanion yn seiliedig ar y canlynol: -

- Iechyd
- Addysg
- Cyflogaeth
- Diogelwch Personol
- Cynrychiolaeth a Llais
- Mynediad at wybodaeth, gwasanaethau a'r amgylchedd

Mae'r rhain yn gyson â'r amcanion cydraddoldeb a nodwyd yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol cyntaf. Nid yw hyn yn syndod gan ein bod yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn ac sy'n hir-sefydlog. Rydym yn cydnabod bod hon yn daith yr ydym arni a bydd gwneud newid parhaus yn cymryd amser. Wrth gynhyrchu'r cynllun hwn byddwn yn cyflawni ein Dyletswyddau Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i hybu cydraddoldeb, dileu gwahaniaethu, erledigaeth ac aflonyddu anghyfreithlon, a meithrin cysylltiadau cymunedol da yn ein swyddogaethau cyflogaeth, polisi, caffael a darparu gwasanaethau.

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn adeiladu ar y cynnydd a wnaed gennym trwy'r Cynllun blaenorol. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ochr yn ochr â Pholisi Amrywiaeth a Chydraddoldeb a'r Safonau Iaith Gymraeg yn nodi ymrwymiad y Cyngor i gydraddoldeb. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn gysylltiedig â blaenoriaethau **gwella'r Cyngor**.

Rydym wedi gwerthfawrogi'r cyfraniadau gan bawb sydd wedi cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu cynllun hwn. Os hoffech chi gymryd rhan a chyfrannu at barhau i adolygu ein blaenoriaethau a fydd yn lleihau anghydraddoldebau yn Sir y Fflint, cysylltwch â ni.

Colin Everett
Prif Weithredwr

Y Cyng Billy Mullin
Aelod Cabinet Rheoli Corfforaethol

1. Cyflwyniad

1.1 Cyd-destun Cyfreithiol

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diogelu pobl rhag gwahaniaethu mewn cyflogaeth a gwasanaethau ar sail y nodweddion canlynol: -

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
-
- Priodas a phartneriaeth sifil
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu gred
- Rhyw
- Tueddfryd Rhywiol

Dyletswydd Cyffredinol

Cyflwynwyd dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus gan y Ddeddf, sy'n gosod Dyletswydd Gyffredinol ar gyrff cyhoeddus i roi ystyriaeth ddyledus i'r angen i:

(a) ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan neu o dan y Ddeddf;

(b) hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu; a
a

(c) meithrin perthnasau da rhwng pobl â nodweddion a ddiogelir a phobl hebddynt.

Dyletswydd Benodol

Mae gan gyrff cyhoeddus datganoledig yng Nghymru ddyletswyddau penodol sy'n cynnwys gosod a chyhoeddi amcanion cydraddoldeb a datblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS). Dyma ail Gynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Sir y Fflint sy'n nodi amcanion cydraddoldeb a'r camau y byddwn yn eu cymryd i'w cyflawni.

Pwrpas y cynllun yw mynd i'r afael ag anghydraddoldebau i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl ar draws y nodweddion warchoddedig sy'n byw a gweithio yn Sir y Fflint. Mae'r amcanion cydraddoldeb yn ceisio mynd i'r afael â meysydd sylweddol o

anghydraddoldeb; rydym wedi adolygu tystiolaeth oddi wrth amrywiaeth o ffynonellau, ansoddol a meintiol, i gyfarwyddo'r CCS. Rhoddir sylw i'r iaith Gymraeg trwy weithredu'r **Safonau Iaith Gymraeg** fel yr amlinellwyd yn y Rhybudd Cydymffurfio a gyflwynwyd gan y Comisiynydd Iaith.

1.2 Amcanion cydraddoldeb ar gyfer 2016/2020

Rydym wedi diweddarau ac adolygu amcanion cydraddoldeb y Cyngor, wrth symud ymlaen o 2016/20 yr amcanion yw:

Lleihau anghydraddoldebau iechyd

Lleihau canlyniadau anghyfartal mewn Addysg er mwyn uchafu potensial unigolion

Lleihau anghydraddoldeb mewn cyflogaeth

Gostwng anghydraddoldebau o ran Diogelwch Personol

Lleihau anghydraddoldeb mewn Cynrychiolaeth a Llais

Lleihau anghydraddoldeb mewn mynediad i wybodaeth a gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd

Bydd cyflawni'r amcanion cydraddoldeb hyn yn cyfrannu at ddarparu gwasanaethau a chyfleusterau priodol, hygyrch ac effeithiol sy'n diwallu anghenion amrywiol ein cymuned ac yn sicrhau bod y Cyngor yn gyflogwr teg yn ei holl arferion cyflogaeth. Mae Atodiad 1 yn nodi'r camau y byddwn yn eu cymryd i fodloni'r amcanion hyn ac yn cwrdd â dyletswyddau penodol Deddf Cydraddoldeb 2010.

1.3 Proffil Cymunedol

Mae Sir y Fflint yn sir lled-wledig Gymreig yng ngogledd-ddwyrain Cymru. Mae'n ffinio â Swydd Caer i'r dwyrain, Wrecsam i'r De a Sir Ddinbych i'r gorllewin. Yn ôl **Cyfrifiad 2011**, poblogaeth Sir y Fflint yw 152,506. Darperir dadansoddiad manwl o'r boblogaeth yn Atodiad 2.

Mae'r penawdau allweddol o **Gyfrifiad 2011** yn dangos:-

- yn y pum mlynedd diwethaf, mae poblogaeth **Sir y Fflint** wedi gweld **cynnydd o 1.1% (1724 o bobl)**.
- rhwng 2001 a 2011, roedd canran y preswylwyr arferol a ddisgrifiodd eu grŵp ethnig fel "Gwyn" yn **Sir y Fflint** wedi **gostwng o 99.2% i 98.5%**.
- yn **2014**, doedd gan **9.2%** o bobl o oedran gweithio sy'n byw yn **Sir y Fflint** ddim cymwysterau. Mae hyn yn cymharu â **10.0%** ar gyfer Cymru.

- yn **2015**, ar gyfartaledd y cyflog gros wythnosol ar gyfer gweithwyr llawn amser yn **Sir y Fflint** oedd **£528.30**. Mae'r ffigur hwn wedi **cynyddu gan 12.3%** ers **2011**.
- Dywedodd **80.6%** o'r ymatebwyr i'r Cyfrifiad 2011 yn **Sir y Fflint** nad yw eu gweithgareddau dyddiol yn cael eu cyfyngu gan eu hiechyd. Mae'r ffigur hwn wedi **gostwng gan 0.2 pwynt canran** o ffigur Cyfrifiad 2001 o **80.8%**.
- Nid oedd gan **1.6%** o gartrefi yn **Sir y Fflint** unrhyw wres canolog. Mae'r ffigur hwn wedi **gostwng gan 5.1 pwynt canran** o ffigur Cyfrifiad 2001 o **6.7%**.
- rhwng **2013-14** a **2014-15** mae nifer yr aelwydydd a benderfynodd i fod yn gymwys, yn anfwriadol ddigartref ac mewn angen blaenoriaeth wedi **codi o 80 i 95**.

1.4 Y Cyngor

Mae gan Gyngor Sir y Fflint 70 o Gynghorwyr sy'n cynrychioli 57 adran etholiadol ac maent yn cael eu hethol yn ddemocrataidd bob 4 blynedd. O'r aelodau etholedig mae 51 yn ddynion, 19 yn ferched. Bu cynnydd mewn aelodau etholedig sy'n ferched; cyn etholiadau 2008 roedd 13 o aelodau etholedig yn ferched.

Mae'r Cyngor yn cyflogi 7017 o bobl sy'n darparu gwasanaethau o wahanol safleoedd o amgylch y sir gyda'r brif ganolfan weinyddol yn Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug. Mae'r gwasanaethau'n cynnwys celfyddydau, treth y cyngor, addysg, tai, hamdden, llyfrgelloedd, cynllunio, gwasanaethau gwastraff, gwasanaethau cymdeithasol, safonau masnach a chludiant. Darperir dadansoddiad o broffil y gweithlu yn Atodiad 3. Mae data yn dangos bod y rhan fwyaf o weithwyr y Cyngor yn ferched, 65% o'i gymharu â 34% o ddynion. Ar gyfer gweithwyr sy'n gweithio mewn ysgolion, mae'r ffigur hwn yn cynyddu i dros 85% o weithwyr sy'n ferched o'i gymharu ag ychydig dros 14% o ddynion. Mae adroddiadau gwybodaeth manwl blynyddol am y gweithlu yn cael eu cyhoeddi ar [wefan](#) y Cyngor.

Fel Cyngor, rydym wedi arbed dros £22m yn ystod y tair blynedd diwethaf i ddiwallu'r her ariannol. Wrth wneud hynny, rydym wedi llwyddo i ddiogelu gwasanaethau allweddol megis cynnal ffyrdd, cadw cymunedau yn lân a thaclus, canolfannau hamdden, ysgolion lleol, cefnogaeth lles a gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn, plant diamddiffyn a'r rhai ag anableddau. Mae cyllid grant Llywodraeth blynyddol i dalu am wasanaethau lleol yn gostwng o flwyddyn i flwyddyn, rhwng rŵan a 2018, mae'r Cyngor yn wynebu bwch cyllideb pellach o £53m.

Mae saith blaenoriaeth wedi'u nodi yng Nghynllun Gwella'r Cyngor 2016 ymlaen:

- Tai
- Amgylchedd
- Byw'n Dda
- Cyngor Modern ac Effeithlon

- Economi a Menter
- Sgiliau a Dysgu
- Cymunedau Diogel

Mae pob blaenoriaeth yn cael ei chefnogi gan is flaenoriaethau. Gellir cael manylion am ein Cynllun Gwella [yma](#)

Cysylltiadau â chynlluniau a strategaethau eraill

Ni all y Cynllun Cydraddoldeb Strategol sefyll ar ei ben ei hun os yw cydraddoldeb am gael ei brif ffrydio i waith bob dydd; mae'n gysylltiedig â:

- Strategaeth Hygyrchedd ysgolion - i sicrhau bod ysgolion yn hygyrch i ddisgyblion, rhieni / gofalwyr a gweithwyr anabl
- Cynllun gweithredu Cynhesrwydd Fforddiadwy - sicrhau bod gan drigolion diamddiffyn fynediad at wres fforddiadwy i gadw'n gynnes
- Polisi Urddas yn y Gwaith - Y nod tymor hir yw bod yn awdurdod ymatebol ym mhob agwedd o'n gweithgareddau gwasanaeth; yn darparu gwasanaethau a chyfleusterau priodol, hygyrch ac effeithiol i ddiwallu anghenion amrywiol ein cymuned
- Strategaeth y Bobl a pholisïau Adnoddau Dynol eraill sy'n ceisio sicrhau ein bod yn deg yn ein holl arferion cyflogaeth
- Prosiect Effeithlonrwydd Ynni yn y Cartref
- Protocol Rheoli Gwersylloedd Diawdurdod, sy'n anelu at sicrhau bod y ffordd y mae'r Cyngor yn rheoli gwersylloedd Theithwyr diawdurdod yn deg ac yn gymesur. Yr amcanion yw: -
 - cydbwysu hawliau ac anghenion cymunedau sefydlog gyda rhai Sipsiwn a Theithwyr;
 - rheoli gwersylloedd diawdurdod mewn ffordd effeithlon ac effeithiol, gan gydbwysu hawliau a chyfrifoldebau Sipsiwn a Theithwyr, trigolion lleol a rhanddeiliaid allweddol;
 - gweithio gydag asiantaethau partner i hyrwyddo cydlyniant cymunedol ac atal eithrio cymdeithasol o Sipsiwn a Theithwyr;
 - pennu fframwaith y gellir gwneud penderfyniadau clir, cyson o fewn iddi, sy'n cysylltu â strategaethau eraill sy'n effeithio ar Sipsiwn a Theithwyr.
 -

Mae [Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol 2015](#) yn ddarn sylweddol o ddeddfwriaeth lle y bydd angen i ni gyhoeddi cynllun Lles ym mis Ebrill 2017. Bydd angen i'r cynllun hwn nodi saith gôl lles - dwy ohonynt gyda chysylltiad uniongyrchol i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol:

Cymru fwy cyfartal Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial waeth beth yw eu cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir ac amgylchiadau economaidd-gymdeithasol).

Cymru â chymunedau cydlynol Cymunedau deniadol, hyfyw, diogel a gyda chysylltiadau da.

Bydd y CCS yn gwneud cyfraniad sylweddol i'r amcanion sy'n weddill

Cymru ffyniannus

Cymru wydn

Cymru iachach

Cymru gyda diwylliant bywiog ac iaith sy'n ffynnu

Cymru fydol ymatebol

Cysylltiadau â'r Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol, Blaenoriaethau'r Cyngor a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol	Blaenoriaethau'r Cyngor	CCS
Cymru ffyniannus	Economi a Menter	Lleihau anghydraddoldeb mewn cynrychiolaeth a llais Lleihau canlyniadau anghyfartal mewn Addysg er mwyn uchafu potensial unigolion Lleihau anghydraddoldeb mewn cyflogaeth
Cymru wydn	Amgylchedd	Pob un o'r chwe amcan cydraddoldeb
Cymru iachach	Byw'n Dda	Lleihau anghydraddoldeb mewn iechyd Lleihau anghydraddoldeb mewn mynediad i wybodaeth a gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd
Cymru fydol ymatebol	Amgylchedd	Lleihau anghydraddoldeb mewn mynediad i wybodaeth a gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd
Cymru gyda diwylliant bywiog a iaith sy'n ffynnu	Cyngor Modern ac Effeithlon Economi a Menter Sgiliau a Dysgu	Lleihau anghydraddoldeb mewn cynrychiolaeth a llais Lleihau anghydraddoldeb mewn mynediad i wybodaeth a gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd
Cymru mwy	Tai	

cyfartal	Sgiliau a Dysgu Cyngor Modern ac Effeithlon	Pob un o'r chwe amcan cydraddoldeb
Cymru â chymunedau cydlynol	Cymunedau Diogel	Pob un o'r chwe amcan cydraddoldeb

2.0 Amcanion Cydraddoldeb

2.1 Bodloni ein hamcanion cydraddoldeb 2012/16. Mae cynnydd at fodloni ein hamcanion cydraddoldeb wedi'i nodi yn ein **hadroddiadau cydraddoldeb** blynyddol. Yn ystod y pedair blynedd diwethaf rydym wedi gwella gwybodaeth am amrywiaeth ein gweithwyr ac wedi rhagori ar ein targedau. Rydym hefyd wedi cynyddu nifer yr adeiladau hygyrch, ac mae manylion llawn ein cyflawniadau wedi eu hamlinellu yn ein **hadroddiadau blynyddol**. Mae enghreifftiau o sut yr ydym wedi diwallu tair rhan o'r Ddyletswydd Gyffredinol wedi'u nodi isod:

Hyrwyddo cydraddoldeb

- Gosod paneli solar ffotofoltäig ar gartrefi, gan gynnwys byngalos pensynwyr, gan leihau biliau gwresogi o fudd i bobl hŷn
- Cynyddu'r cyflenwad o nwy i gymunedau gwledig ac edrych ar ffyrdd eraill o leihau biliau gwresogi gan ostwng nifer y bobl sy'n dioddef tlodi tanwydd neu sy'n byw mewn tlodi tanwydd
- Wedi cael gwobr Cyflogwr Cymreig sydd wedi Gwella Orau gan Stonewall Cymru yn 2013
- Cynhaliwyd Archwiliad Cyflog Cyfartal i sicrhau bod cynllun tâl y Cyngor yn talu dynion a merched yn deg

Dileu Gwahaniaethu, Aflonyddu ac Erledigaeth

- Codwyd Baner Enfys a baner Traws i ddathlu mis Hanes LGBT a Dydd y Cofio Traws
- Darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth Traws ar gyfer gweithwyr
- Hyfforddiant ymwybyddiaeth Teithwyr
- Cynyddu nifer yr ysgolion hygyrch
 - Ysgolion Uwchradd, o un, yn 2012 i bump yn 2016
 - Ysgolion cynradd o bump yn 2012 i bymtheg o ysgolion cynradd yn 2016
- Darparwyd hyfforddiant ar "Dim hawlio arian cyhoeddus" a " Hawliau Gwladolion Ewropeaidd" er mwyn sicrhau nad yw gweithwyr yn gwahaniaethu'n anfwriadol yn erbyn cwsmeriaid
- Darparwyd hyfforddiant Troseddau Casineb gan Gymorth i Ddioddefwyr ar gyfer gweithwyr sy'n gweithio mewn Addysg, Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol
- Darparwyd hyfforddiant "Prevent¹" i ysgolion gan Heddlu Gogledd Cymru

¹ Mae Prevent yn strategaeth gan y Llywodraeth sy'n annog plant i ddatblygu agwedd gadarnhaol tuag at eraill wrth ddatblygu parch uchel tuag at eu hunain

- Rydym yn parhau i gynnig y Cynllun Tic Dwbl, sy'n gwarantu cyfweiliadau ar gyfer pobl anabl sy'n gwneud cais am swyddi yn y Cyngor ac sy'n bodloni'r meini prawf hanfodol.

Maethu Cysylltiadau Da

- Darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth Traws ar gyfer staff i'w helpu i godi ymwybyddiaeth o'r materion sy'n wynebu'r gymuned Traws
- Darparwyd hyfforddiant ymwybyddiaeth Teithwyr i weithwyr; ariannodd Llywodraeth Cymru yr hyfforddiant ar gyfer aelodau etholedig
- Darparwyd gwybodaeth am Ffoaduriaid ar wefan y Cyngor
- Cafodd hyfforddiant ei gynnig i weithwyr ar ddiwylliant Roma

2.2 Adolygu ein Hamcanion

Mae'r dyletswyddau cydraddoldeb statudol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus sefydlu amcanion cydraddoldeb mewn perthynas â'r grwpiau gwarchoddedig. Dylai amcanion fod yn seiliedig ar dystiolaeth a chanolbwyntio ar ganlyniadau i fynd i'r afael â'r meysydd mwyaf sylweddol o anghydraddoldeb gan arwain at welliannau i weithwyr a chwsmeriaid. Dylai'r amcanion cydraddoldeb gwrdd â thair rhan y ddyletswydd gyffredinol. Hefyd mae'n rhaid i ni gyhoeddi amcan i fynd i'r afael â gwahaniaeth cyflog rhwng y rhywiau. Mae'r cynllun gweithredu i gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb yn cael ei nodi yn Atodiad 1.

Rydym yn adolygu ein hamcanion gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau: -

Yn rhanbarthol

- Rydym yn gweithio ar y cyd gyda chyrff sector cyhoeddus eraill ar draws Gogledd Cymru i gynnal ymchwil rhanbarthol a chenedlaethol, mae hyn yn cael ei gyhoeddi ar ein **gwefan**
- Buom yn ymgynghori â rhan-ddeiliaid ar amcanion rhanbarthol. Gellir gweld canlyniadau'r gweithdy hwn yma.

Yn lleol

- Buom yn gweithio gyda rhan-ddeiliaid lleol o grwpiau gwarchoddedig a fforymau gweithwyr i nodi materion allweddol ar eu cyfer. Gofynnem y cwestiynau canlynol ar gyfer pob amcan:
 - A yw hyn yn dal i fod yn flaenoriaeth?
 - Pam / pam ddim?
 - A oes unrhyw faterion cydraddoldeb penodol ar gyfer pobl â nodweddion gwarchoddedig nad ydynt wedi'u cynnwys o fewn yr amcanion presennol?
 - A oes unrhyw flaenoriaethau eraill y mae angen i ni eu hystyried?

- Gofynnem i fforymau gweithwyr y Cyngor i adolygu'r amcanion cydraddoldeb presennol a'r amcanion rhanbarthol drafft
- Fe adolygom gynnydd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol cyfredol a nodom yr amcanion hynny a gawsom yn anodd dod o hyd i ddata i fesur eu cynnydd.
- Rydym hefyd yn adolygu'r data a gadwom ar broffil gweithwyr y Cyngor a chwsmeriaid. Gwelsom mai data cyfyngedig oedd ar gael am broffil cwsmeriaid a gweithwyr a lle'r oedd ar gael, nid oedd yn cwmpasu pob un o'r nodweddion gwarchoddedig. Rydym yn cydnabod bod angen i ni barhau i goladu data i fonitro unrhyw anghydraddoldebau ar gyfer grwpiau penodol a hefyd i nodi meysydd ar gyfer gwelliannau.

Roedd adolygiad o asesiadau ac adroddiadau lleol a chenedlaethol yn cynnwys: -

- Lefelau cyrhaeddiad disgyblion 2014 - dangosodd hyn bod merched yn dal i wneud yn well na bechgyn, gyda 84.7% o ferched yn ennill pump TGAU gradd A* - C. Mae'r data hefyd yn dangos bod 50% o'r Plant sy'n Derbyn Gofal yn cyflawni Cyfnod Allweddol 3 o'u cymharu â 84.3% o'r holl ddisgyblion.
- Ffigurau troseddau casineb ar gyfer Sir y Fflint 2015/16 - mae'r tabl isod yn dangos bod y mwyafrif o adroddiadau am droseddau casineb yn ymwneud â throseddau casineb hiliol.

Math o drosedd	Nifer
Hiliol	33
Homoffobig	6
Anabledd	6
Crefyddol	4

- Adroddiadau gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) "A yw Cymru'n Decach"? <http://www.equalityhumanrights.com/publication/wales-fairer> Nododd hwn heriau allweddol fel
 - Bylchau mewn cyrhaeddiad
 - Recriwtio teg, datblygu a gwobrwyo mewn cyflogaeth
 - Gwella amodau byw mewn cymunedau cydlynol
 - Cynyddu mynediad at gyfiawnder ac annog cyfranogiad democrataidd
 - Gwella mynediad i wasanaethau iechyd meddwl a chymorth i bobl sy'n dioddef iechyd meddwl gwael
 - Atal cam-drin, esgeulustod a thriniaeth wael mewn gofal a sefydliadau cadw
 - Dileu trais, cam-drin ac aflonyddu yn y gymuned.

Blaenoriaethau a godwyd yn ystod ymgysylltu a chasglu gwybodaeth:

- Mynediad i wasanaethau – gall pob aelod o'r gymuned gael gafael ar wasanaethau, mewn tai penodol.
- Hyfforddiant – mae'r holl weithwyr ac aelodau etholedig yn cael eu hyfforddi er mwyn cwrdd â'r agenda cydraddoldeb
- Mae angen i gontractwyr a darparwyr gwasanaeth sy'n darparu nwyddau gwasanaeth ac yn gweithio ar ran y Cyngor Sir y Fflint gadw at yr agenda cydraddoldeb
- Cyflogaeth - mae cydraddoldeb o ran tâl i ddynion a merched ac mae cyfansoddiad y gweithlu yn adlewyrchu'r gymuned leol
- Llais - cyfleoedd i bob gweithiwr gael llais yn y gweithle ac i gwsmeriaid i fod yn rhan o lunio gwasanaethau
- Troseddau Casineb - mwy o bobl yn adrodd am ddigwyddiadau a lleihad mewn digwyddiadau

Roedd y rhain yn gyson ag amcanion cydraddoldeb presennol, ni nododd adborth o ymgynghori unrhyw amcanion cydraddoldeb y dylid eu dileu.

Ein hamcanion cydraddoldeb diwygiedig

Nodir y rhain yn y tudalennau canlynol, nododd adborth y dylai'r amcanion barhau ac y dylid canolbwyntio mwy ar ganfod a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau lleol.

Mae'r amcanion cydraddoldeb rhanbarthol i'w cael yma. Yr amcanion yw: -

- Delio ag anghydraddoldebau iechyd
- Delio â chanlyniadau anghyfartal mewn addysg er mwyn uchafu potensial unigolion
- Delio ag anghydraddoldebau mewn cyflogaeth a thâl yn y gymuned
- Delio ag anghydraddoldebau o ran diogelwch personol
- Delio ag anghydraddoldeb mewn cynrychiolaeth a llais
- Delio ag anghydraddoldeb mewn mynediad i wybodaeth a gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd

Bydd bodloni ein hamcanion cydraddoldeb lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni'r amcanion cydraddoldeb rhanbarthol.

Amcan 1: Lleihau Anghydraddoldebau Iechyd

Beth fyddwn yn ei wneud erbyn 2020

1. Gwella canlyniadau iechyd ar gyfer grwpiau gwarchoddedig

Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- % y Plant sy'n Derbyngofal sydd wedi cofrestru gyda Meddyg Teulu
- % y Plant sy'n Derbyngofal (LAC) sydd wedi cael gwiriad iechyd
- Nifer o blant sy'n derbyn gofal yn aros i gael mynediad at y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)
- % y gweithwyr sy'n mynychu hyfforddiant ymwybyddiaeth Trawsrywedd
- % o weithwyr sy'n cwblhau hyfforddiant Sipsiwn-Teithwyr
- Nifer y bobl a gefnogir i aros yn eu cartref oherwydd addasiad
- % o'r rhai sy'n gadael gofal sydd wedi dioddef digartrefedd yn ystod y flwyddyn.
- % o bobl sy'n fodlon gyda'r gofal a chefnogaeth maent yn dderbyn
- Nifer y digwyddiadau wedi'i hanelu at godi ymwybyddiaeth o ddementia ar draws y sir (a faint o bobl sy'n manteisio ar hyn)

2. Lleihau effaith camddefnyddio sylweddau ar unigolion, eu teuluoedd a chymunedau yn y sir

Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- % amser aros o lai na 20 diwrnod o'r atgyfeiriad i'r driniaeth
- Cyflawni targed Llywodraeth Cymru ar gyfer y % o driniaethau camddefnyddio sylweddau a gwblhawyd
- % o gwsmeriaid i'r gwasanaeth sy'n cwblhau'r archwiliad amrywiaeth

Mae hyn yn flaenoriaeth oherwydd:

- Dywedodd yr adborth o'r ymgynghori rhanbarthol a lleol fod hyn yn bwysig.
- Mae plant sy'n derbyn gofal a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn rhannu llawer o'r un risgiau iechyd a phroblemau â'u cyfoedion, ond yn aml i raddau mwy. Maent yn aml yn mynd i ofal gyda lefel gwaeth o iechyd na'u cyfoedion yn rhannol oherwydd effaith tlodi, cam-drin ac esgeulustod. Mae asesiadau iechyd felly yn ganolog i sicrhau cydraddoldeb o ran gofal.
 - Dengys ystadegau fod pobl sy'n aros yn eu cartrefi eu hunain yn cael canlyniadau gwell, mai pobl hŷn a phobl anabl yw'r grwpiau mwyaf tebygol o gael eu heffeithio yn anghymesur. Adroddodd Stonewall (2012) bod pobl LHD yn dal i fod yn ansicr ynghylch sut y byddant yn cael eu trin gan wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.
 - Mae rhai grwpiau o bobl ym Mhrydain, gan gynnwys pobl Trawsrywiol, Sipsiwn a Theithwyr a phobl ddigartref yn cael anhawster cael mynediad at ofal iechyd.

Amcan 2: Lleihau canlyniadau anghyfartal mewn Addysg er mwyn uchafu potensial unigolion

Beth fyddwn yn ei wneud erbyn 2020

1. Lleihau'r bwlch mewn lefelau cyrhaeddiad addysgol rhwng gwahanol grwpiau ym mhob cyfnod allweddol

Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Monitro blynyddol a dadansoddiad o lefelau cyrhaeddiad addysgol gwahanol grwpiau gwarchoddedig - rhyw, cefndir ethnig, Prydau Ysgol am Ddim, Plant sy'n Derbyngofal
- % y plant sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 a 4
- Gwella canlyniadau mewn Mathemateg, Saesneg a Chymraeg neu'r holl grwpiau a warchodir, prydau ysgol am ddim a phlant sy'n derbyn gofal
- % o blant sy'n derbyn gofal sy'n newid ysgol 1 neu fwy o weithiau

2. Sicrhau bod disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol

Caiff llwyddiant ei fesur drwy

- Nifer yr athrawon sy'n mynychu cwrs Hyfforddi'r Hyfforddwr gan Stonewall Cymru
- Datblygiad polisi Ailbennu Trawsrywiol ar gyfer ysgolion
- Gweithredu cynllun gweithredu Cefnogwyr Addysg Stonewall Cymru
- % o adroddiadau o fwlio ar sail hunaniaeth sy'n digwydd mewn ysgolion
- % y plant sy'n adrodd eu bod yn mwynhau'r ysgol, addysg bellach a hyfforddiant
- Hyrwyddo canllawiau 'parchu eraill' i ysgolion;
- Trefnu Cynhadledd "Parchu Eraill" flynyddol i Bobl Ifanc

Mae hyn yn flaenoriaeth oherwydd:

- Mae merched yn perfformio'n well na bechgyn ym mhob cyfnod allweddol
- ²Mae ymchwil wedi dangos y bu gostyngiad cyfyngedig mewn anghydraddoldebau mewn cyrhaeddiad ar draws Cymru rhwng grwpiau, er enghraifft, prydau ysgol am ddim, Sipsiwn-Teithwyr
- Mae ymchwil yn dangos bod plant sy'n derbyn gofal yn gallu cael mwy o heriau megis anghytgord o fewn eu teuluoedd eu hunain, newidiadau aml o ran cartrefi neu ysgolion, a diffyg mynediad i gefnogaeth a chyingor oddi wrth oedolion maent yn ymddiried ynddynt. Mae plant yn aml yn mynd i'r system ofal gyda lefel gwaeth o addysg na'u cyfoedion yn rhannol oherwydd effaith tlodi, rhianta gwael, ffyrdd o fyw gwyllt a cham-drin ac esgeulustod. Mae astudiaethau yn dangos bod canlyniadau hirdymor a

² A yw Cymru'n Decach? – Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2015

chanlyniadau addysgol yn arbennig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a rhai sy'n gadael gofal yn parhau i fod yn waeth na'u cyfoedion.

- ³Dywedd Estyn (2014) bod bwlio'n risg benodol ar gyfer:
- disgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig
- disgyblion anabl
- disgyblion lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol (LGBT)
- disgyblion o leiafrifoedd ethnig
- disgyblion o gefndir crefyddol

³ Estyn – Gweithredu ar Fwlio 2014

Amcan 3: Lleihau Anghydraddoldebau mewn cyflogaeth

Beth fyddwn yn ei wneud erbyn 2020

1. Nodi a mynd i'r afael ag unrhyw anghydraddoldeb o fewn prosesau cyflog, recriwtio, cadw, hyfforddi a dyrchafu

Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Gynyddu ansawdd a maint data'r gweithlu
 - Cwblhau a chyhoeddi dadansoddiad blynyddol o ddata gweithlu a chynhyrchu cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw anghydraddoldebau posibl neu wirioneddol
2. Sicrhau bod gweithwyr yn derbyn hyfforddiant ar gydraddoldeb er mwyn eu harfogi â sgiliau a gwybodaeth i fodloni Deddf Cydraddoldeb 2010

Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- nifer y gweithwyr sy'n cwblhau'r modiwlau e-ddysgu cydraddoldeb ac amrywiaeth
- nifer y cyrsiau sy'n ymwneud â chydraddoldeb a ddarperir a nifer y gweithwyr sy'n mynychu
- nifer y cwynion a wneir gan weithwyr am wahaniaethu a bwlio'n seiliedig ar hunaniaeth
- nifer y cwynion am wahaniaethu a wneir gan ymgeiswyr am swyddi

3. Cefnogi grwpiau gwarchoddedig i gael a chadw cyflogaeth

Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- % o'r holl rai sy'n gadael gofal sydd mewn addysg barhaus, hyfforddiant neu gyflogaeth barhaus am 12 mis a 24 mis ar ôl gadael gofal.
- % o bobl ag anableddau dysgu sy'n cael mynediad at gynlluniau cyfleoedd gwaith
- Lleihau nifer y bobl ifanc 18-24 oed ar Lwfans Ceisio Gwaith
- Cynyddu nifer y cyfleoedd hyfforddi a phrentisiaeth
- Sicrhau bod lefelau uchel o bobl ifanc 16 oed mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant

Mae hyn yn flaenoriaeth oherwydd:

- Mae hyfforddi gweithwyr ar y ddyletswydd cydraddoldeb sector cyhoeddus, monitro amrywiaeth y gweithlu, cyhoeddi adroddiad blynyddol y gweithlu a gosod amcan cyflog i gyd yn ofynion Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.
- Mae ymgynghori wedi amlygu'r angen i weithwyr i wella ymwybyddiaeth o gydraddoldeb, yn enwedig ymwybyddiaeth o anabledd ac addasiadau rhesymol

- ⁴Mae ymchwil wedi dangos bod bwlch cyflog yn dal i fodoli rhwng cyflog cyfartalog dynion a merched
- Mae diweithdra yn uwch ar gyfer rhai grwpiau gwarchoddedig - pobl ifanc, pobl anabl.
- Mae astudiaethau yn dangos bod canlyniadau hirdymor a chanlyniadau addysgol a chyflogaeth yn arbennig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a rhai sy'n gadael gofal yn parhau i fod yn waeth na'u cyfoedion.

⁴ A yw Cymru'n Decach? – Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Amcan 4: Gostwng anghydraddoldebau o ran Diogelwch Personol

Beth fyddwn yn ei wneud erbyn 2020

1. Codi ymwybyddiaeth o droseddau casineb

Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Nifer yr adroddiadau am ddigwyddiadau casineb yn ôl nodwedd warchoddedig
- Mentrau ar waith i hyrwyddo Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb

2. Codi ymwybyddiaeth o Ddiogelu

Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Sefydlu Panel Diogelu Corfforaethol
- Datblygu Polisi Diogelu Corfforaethol sy'n cynnwys Caethwasiaeth Modern
- Nifer y gweithwyr sy'n mynychu'r hyfforddiant Diogelu

3. Mynd i'r afael ag achosion risg uchel ailadroddus o gam-drin domestig a galluogi dioddefwyr cam-drin domestig i aros yn eu heiddo eu hunain

Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- % o ddioddefwyr risg uchel ailadroddus o gam-drin domestig a atgyfeiriwyd at MARAC (Cynhadledd Asesu Risg Aml-Asiantaeth)
- Nifer yr ymweliadau atgyfeirio cartref a gynhaliwyd gan Wardeiniaid Cymdogaeth

4. Datblygu lloches cam-drin domestig ar gyfer dynion i leihau'r anghydraddoldeb yn y ddarpariaeth yng Ngogledd Cymru

Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Cynnal prosiect a derbyn atgyfeiriadau

Mae hyn yn flaenoriaeth oherwydd:

- Nododd ymgynghoriad bod troseddau casineb yn dal yn broblem i lawer o bobl
- Adroddodd y EHRC⁵ fod nifer yr achosion o droseddau casineb yng Nghymru yn uwch ar gyfer rhai grwpiau
- Mae diffyg cyfleusterau i ddynion sy'n dioddef cam-drin domestig

⁵ A yw Cymru'n Decach? – Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2015

Amcan 5: Lleihau anghydraddoldeb mewn Cynrychiolaeth a Llais

Beth fyddwn yn ei wneud erbyn 2020

1. Cynyddu amrywiaeth proffil y bobl sy'n cymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus a chyrrff cynrychioliadol.

Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Monitro proffil amrywiaeth llywodraethwyr ysgol, Cynghorau Ysgolion, Cymdeithasau Preswylwyr a Thenantiaid a grwpiau cynllunio defnyddwyr gwasanaethau.
 - Cyhoeddi a hyrwyddo llyfryn cyrrff gwneud penderfyniadau - sut i gymryd rhan
2. Gwella cynrychiolaeth grwpiau a ddiogelir yn y gweithgareddau ymgynghori ac asesiadau o effaith ar gydraddoldeb

Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Nifer o Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb a gyflwynwyd i grwpiau rhanddeiliaid
- % y bobl sy'n adrodd eu bod yn teimlo yn rhan o unrhyw benderfyniadau a wneir ynghylch eu gofal a chefnogaeth
- Datblygu gweithdrefnau hawdd a hygyrch i bobl gwyno pan fydd pethau'n mynd o chwith.

Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Monitro data cwynion i sicrhau bod pobl yn cael mynediad trwy amrywiaeth o sianelau cyfathrebu.

Mae hyn yn flaenoriaeth oherwydd:

- Mae ymgysylltu â grwpiau gwarchoddedig a chynnal asesiadau o effaith ar gydraddoldeb yn ofynion statudol y PSED
- Mae hyn wedi cael ei godi fel problem yn ystod yr ymgynghoriad
- Mae tystiolaeth yn awgrymu fod pobl yn fwy tebygol o gyflawni canlyniadau llwyddiannus os ydynt wedi cymryd rhan wrth gynllunio eu cefnogaeth.

Amcan 6: Lleihau anghydraddoldeb mewn mynediad i wybodaeth a gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd

Beth fyddwn yn ei wneud erbyn 2020

1. Hyrwyddo a chynyddu'r defnydd o linell iaith ar draws yr holl wasanaethau wrth ddelio â chwsmeriaid lle gall rhwystrau iaith arwain at y naill barti yn deall gwybodaeth yn glir.

Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Nifer y ceisiadau am wybodaeth mewn gwahanol ieithoedd a fformatau
- Cytuno ar ddatganiad safonol ar gyfer geiriad ar gyfer yr holl ddogfennau cyhoeddus yn datgan gall yr wybodaeth gael ei darparu mewn gwahanol ieithoedd a fformatau
- Nifer y gweithwyr sy'n mynychu hyfforddiant ymwybyddiaeth Byddardod
- % y bobl sy'n adrodd eu bod wedi derbyn gofal a chymorth drwy eu dewis iaith

2. Gwella mynediad at wasanaethau, cludiant, yr amgylchedd adeiledig a manau agored y mae'r Cyngor yn eu darparu neu'n rheoli

Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Monitro a dadansoddi cydraddoldeb mewn gwasanaethau allweddol: Addysg, Tai, Gwasanaethau Cymdeithasol
- Aseidiadau effaith ar yr iaith Gymraeg a chydraddoldeb wedi'u hymgorffori yn System Rheoli Perfformiad y Cyngor
- Nifer yr aseidiadau effaith cydraddoldeb a wneir ym mhob Portffolio
- Datblygu cymal safonol mewn contractau i sicrhau bod contractwyr, Modelau Darparu Amgen a Throsoglwyddo Asedau Cymunedol yn cadw at y ddyletswydd cydraddoldeb a Safonau Cymraeg
- Amseroedd aros am Dai a Addaswyd o'u cymharu â Thai eraill
- Nifer a % o weithwyr Cartref Newydd sy'n mynychu hyfforddiant ymwybyddiaeth trawsrywedd
- Nifer y gweithwyr tai sy'n mynychu hyfforddiant ymwybyddiaeth Sipsiwn-Teithwyr
- Cynyddu nifer y model darparu amgen a throsoglwyddiadau asedau cymunedol sy'n cynnwys cymalau sy'n berthnasol i'r PSED a Safonau Iaith Gymraeg

Mae hyn yn flaenoriaeth oherwydd:

- Mae ymgynghori yn rhanbarthol ac yn lleol wedi nodi bod hwn yn broblem
- Mae pobl anabl yn aros yn hwy am lety wedi'i addasu na grwpiau eraill

3. Diwallu'r Dyletswyddau Penodol

3.1 Trefniadau ar gyfer nodi, coladu a chyhoeddi gwybodaeth

Cyflogaeth

Ar hyn o bryd rydym yn monitro proffil y gweithwyr yn ôl oedran, anabledd, ethnigrwydd, statws priodasol, crefydd, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Caiff adroddiadau manwl eu cyhoeddi yn flynyddol ar ein gwefan ac yn cynnwys proffiliau o: -

- y gweithlu
- lefelau tâl
- ymgeiswyr sy'n ymgeisio am swyddi
- ymgeiswyr a ddewiswyd ar gyfer cyfweiliad
- penodiadau llwyddiannus
- ymadawyr
- achosion o fwlio ac aflonyddu
- camau disgyblu
- gweithwyr sydd wedi derbyn hyfforddiant

Ysgolion

Rydym hefyd yn casglu data am broffil disgyblion ysgol yn ôl oedran, ethnigrwydd, rhyw, iaith, mewn perthynas â:

- cyrhaeddiad (cyfnodau allweddol 2, 3, 4 a 5)
- presenoldeb
- gwaharddiadau
- hawl i brydau ysgol am ddim

Mae data ar gyrhaeddiad mewn cyfnodau allweddol penodol yn cael ei gyhoeddi yn yr adroddiad cydraddoldeb blynyddol. Mae'r data yn cael ei gasglu fel rhan o Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (PLASC) a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru.

Gwasanaethau

Caiff proffil cwsmeriaid ei gasglu gan y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer Oedolion, y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer Plant, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid trwy system cwynion a sylwadau'r Cyngor. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei chyhoeddi yn yr adroddiad cydraddoldeb blynyddol ar ein gwefan. Mae arolygon trigolion, arolygon boddhad ac ymarferion ymgynghori'n casglu gwybodaeth cydraddoldeb hefyd.

3.2 Trefniadau ar gyfer asesu effaith

Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd benodol, mae'n ofynnol i bob awdurdod cyhoeddus nodi dulliau asesu effaith o ran polisiau ac arferion. Mae hyn er mwyn sicrhau bod anghenion a phryderon yr holl grwpiau gwarchoddedig yn cael eu hystyried.

Mae offeryn sgrinio ar gyfer asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb (AEGau) a thempled ar gyfer asesiad o effaith llawn wedi cael ei ddatblygu. Mae hyn bellach yn cynnwys yr iaith Gymraeg. Mae rhaglenni parhaus o weithdai i gynorthwyo Portffolios i gynnal AEGau wedi cael eu gweithredu. Bydd pob asesiad effaith yn cael ei gymeradwyo gan y Portffolio perthnasol. Mae grŵp o randdeiliaid yn cynrychioli nodweddion gwarchoddedig ymhlith gweithwyr ac aelodau'r cyhoedd yn adolygu AEGau a rhoi adborth i'r awduron. Mae AEGau wedi cael eu hintegreiddio i mewn i'r system rheoli perfformiad er mwyn hwyluso monitro mwy effeithiol. Caiff crynodebau o AEGau sy'n cael effaith sylweddol fel y cytunwyd gan y grŵp rhanddeiliaid eu cyhoeddi ar ein gwefan.

Mae pob adroddiad i Bwyllgor yn cynnwys adran Asesu Risg sydd angen cynnwys Effaith ar Gydraddoldeb a'r iaith Gymraeg. Mae'r adran hon i'w llenwi gan awdur yr adroddiad.

3.3 Trefniadau ar gyfer hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth a nodi anghenion hyfforddi gweithwyr mewn perthynas â dyletswyddau sector cyhoeddus

Mae'r adran hon yn nodi trefniadau'r Cyngor ar gyfer sicrhau bod gan weithwyr yr wybodaeth, sgiliau a'r agweddau i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol a phenodol. Rydym yn cydnabod y bydd rhywfaint o godi ymwybyddiaeth/ hyfforddiant yn generig a bod angen i bob gweithiwr fod yn ymwybodol, a bydd hyfforddiant arall yn ymwneud yn fwy penodol â rolau swyddi unigol gan gefnogi gweithredu'r CCS.

Mae gweithgareddau penodol i gefnogi'r trefniadau hyn yn cynnwys: -

- Gweithdai pwrpasol ar Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb.
- Hyfforddiant i gefnogi mentrau megis Wythnos Ymwybyddiaeth o'r Byddar, Mis Hanes Sipsiwn a Theithwyr, Mis Hanes Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol a hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o faterion cydraddoldeb penodol.
- Mae Stonewall Cymru wedi cael eu comisiynu i ddarparu hyfforddiant ar faterion penodol, megis ymdrin â bwlio homoffobig. Byddant hefyd yn cyflwyno hyfforddiant i athrawon a llywodraethwyr ysgolion
- Mae adnoddau ar gael ar fewnrwyd y Cyngor gan gynnwys canllawiau ar gyfer gweithio gyda phobl o'r grwpiau gwarchoddedig.
- Cyflwyno modiwlau e-ddysgu ar Ddeddf Cydraddoldeb 2010, cydraddoldeb ac amrywiaeth ac asesiadau effaith. Mae'n rhaid i bawb sy'n dechrau o'r newydd gwblhau'r ddau fodiwl cyntaf.

- Bydd anghenion hyfforddiant mewn perthynas â'r dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn cael eu nodi fel rhan o'r broses arfarnu.

3.4 Sut byddwn yn ymgorffori cydraddoldeb mewn Caffael

Wrth gaffael gwaith, nwyddau neu wasanaethau gan sefydliadau eraill, mae'n rhaid i gorff cyhoeddus yng Nghymru: -

- roi ystyriaeth ddyledus ynghylch a fyddai'n briodol i'r meini prawf dyfarnu ar gyfer y contract gynnwys ystyriaethau i helpu cyflawni'r ddyletswydd gyffredinol
- rhoi ystyriaeth ddyledus ynghylch a fyddai'n briodol i bennu amodau yn ymwneud â pherfformiad y contract i helpu i gyflawni tri nod y ddyletswydd gyffredinol.

Mewn rhai contractau bydd cydraddoldeb yn ofyniad craidd a bydd hyn yn cael ei nodi yn fanwl o fewn y contract. Mae'r Polisi Caffael Cyngor Sir y Fflint yn datgan ei ymrwymiad i: -

- Ddefnyddwyr pob gwasanaeth
- Amcanion craidd a pholisi'r Cyngor
- Cydymffurfio â nodau ac amcanion y gwasanaeth
- Gwelliant parhaus
- Ansawdd a chydraddoldeb
- Effeithlonrwydd gweithredol

Mae ein Rheolau Gweithdrefn Contractau yn cynnwys yr holl nodweddion gwarchoddedig yn yr holiadur cyn cymhwyso (HCC) ar gyfer tendr. Mae canllawiau ar gael i weithwyr ar gynnwys ystyriaethau cydraddoldeb mewn contractau penodol. Mae canllawiau drafft hefyd ar gael i gontractwyr ar yr hyn rydym yn ei ddisgwyl ganddynt pan fyddant yn darparu nwyddau, gwasanaethau, ac yn gweithio ar ein rhan. Byddwn hefyd yn cynnal sesiynau briffio ar gyfer contractwyr i gynyddu eu hymwybyddiaeth o'n disgwyliadau o ran cydraddoldeb a chontractau.

4 Monitro ac Adolygu

